NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Trwsio deilios y falf feitrol drwy'r croen ar gyfer dadlynciad meitrol

29 Mai 2019

Mae'r driniaeth hon yn gweithio'n dda ar gyfer dadlynciad meitrol ac nid oes unrhyw bryderon difrifol ynglŷn â pha mor ddiogel ydyw i gleifion na allant gael llawdriniaeth agored.

Mae dadlynciad meitrol yn digwydd pan na fydd y falf feitrol yn y galon yn cau'n iawn. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i waed lifo y ffordd anghywir. Wedyn, mae'n rhaid i'r galon weithio'n galetach i bwmpio gwaed o amgylch y corff, a all arwain at fethiant y galon. Yn ystod y driniaeth hon, caiff clip bach ei lywio i mewn i'r galon drwy gathetr (tiwb tenau) a osodir mewn gwythïen yn y werddyr. Cysylltir y clip â deilios (fflapiau) y falf feitrol er mwyn ei helpu i gau'n well. Y nod yw gwella symptomau ac ansawdd bywyd.

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau ymyriadau NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

## *Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt*

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-3374-7



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.